

## **Adroddiad Ôl-Ymgynghori**

### **Ysgol Gynradd Lansdowne Road – Gorchymyn Traffig Arbrofol**

**Rhif Project: CO18125**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion cynllun uchod rhwng 20 Medi 2018 a 11 Hydref 2018, er y cafodd unrhyw ohebiaeth a ddaeth yn fuan ar ôl y dyddiad cau ei chynnwys yn rhan o'r adroddiad hwn. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidiau lleol pan fo modd.

O'r oddeutu 50 o eiddo yr ymgynghorwyd â nhw, a'r pedwar hysbysiad safle a roddwyd ar y safle ei hun, cafwyd tri ymateb unigol, a cheir crynodeb ohonynt isod fel a ganlyn:

- 1- Cefnogi'r cynnig
- 1 – Gwrthwynebu'r cynnig
- 1 – Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu'r cynnig

Ceir y gofidiau a'r sylwadau mewn ysgrifen *italig*, isod ynghyd ag ymateb y Cyngor.

### **Argymhelliad**

O ystyried yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** gyda'r cynllun, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. Bydd y cynllun yn cyflwyno gwaharddiad arbrofol rhag troi i'r dde ac i'r chwith i Norfolk Street rhwng 7:30am a 9:30am, a 14:30pm a 17:00pm, sef oriau brig gollwng a chasglu o Ysgol Gynradd Lansdowne.

## **Dyma isod y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:**

### Problem – Mae'r Cynllun yn edrych yn afrealistig a Dadleoli Lleoedd Parcio

*“Fodd bynnag, ymddengys y cynnig a awgrymwyd gan y Cyngor i osod gwaharddiad ar unrhyw un nad yw'n drigolyn, staff neu ddosbarthiadau rhag dod i mewn i'r stryd ar 'oriau brig' yn afrealistig.”*

*“Er mwyn gwneud yr ysgol yn fwy diogel i gerddwyr, oedolion a phlant, mae angen gorfodi gwaharddiad parcio gyferbyn â'r tai dan sylw. Mae angen hefyd gorfodi parcio preswylwyr yn ystod oriau ysgol gan y diystyrir hyn yn llwyr yn aml iawn, sy'n ychwanegu at y broblem.”*

Ar ôl gweithredu'r cynllun, bydd yr Awdurdod Lleol yn asesu a monitro'r cynllun, gwneir hyn drwy gyfathrebu â'r Ysgol a chyflawnir ymweliadau â'r safle yn ystod yr oriau dan y gwaharddiad i asesu effaith y cynllun. Os nodir problemau diogelwch ar y ffyrdd ychwanegol yn ystod cyfnod monitro'r cynllun hwn, caiff y materion hyn eu cyfeirio at y tîm Gorchymyn Rheoli Traffig i ymchwilio iddynt a phenderfynu a yw'n ofynnol gosod cyfyngiadau ychwanegol.

## **Dyma isod y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd o blaid y cynnig:**

*“Helo, er fy mod i'n cymeradwyo'r syniad, rwy'n poeni fel preswyllydd Norfolk Street am yr effaith a gaiff y cynllun arbrofol ar ymwelwyr.”*

*“Mae eich llythyr yn nodi y byddwch yn gwahardd cerbydau rhag troi i'r dde ac i'r chwith i mewn i Norfolk Street. Mae hyn yn dda, ond dydi hi ddim yn ddigon o gwbl i leihau'r problemau traffig o gwmpas yr ysgol hon.”*

## **Mae'r isod yn sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori am faterion eraill cysylltiedig â'r ymgynghoriad:**

### Sylw – Sut y caiff y cynllun newydd ei orfodi?

*“Mae angen hefyd gorfodi parcio preswylwyr yn ystod oriau ysgol gan y diystyrir hyn yn llwyr yn aml iawn, sy'n ychwanegu at y broblem.”*

Os nad yw cerbyd yn cydymffurfio â'r Gorchymyn Gwahardd Gyrru hwn, gall fod yn destun Hysbysiad Tâl Cosb a bydd Swyddog Gorfodi Sifil / yr Awdurdod yn cyhoeddi'r tâl hwn i berchennog y cerbyd gan ddefnyddio Car Camera y Timau Gorfodi Sifil.

Pe byddai problem barhaus mewn lleoliad, gallai'r Cyngor ystyried cyflwyno camera gorfodi sefydlog.

### Sylw – Cais am Orchmynion Rheoli Traffig ychwanegol

*“Un broblem sylweddol yw'r dagfa draffig a achosir ar Lansdowne Road gyferbyn â thai rhif 219 i 239. Dyma fan culaf Lansdowne Road, a chewch drigolion sy'n parcio ar Lansdowne Road, a phobl sy'n gollwng plant i'r ysgol yn parcio ar yr ochr wrthwyneb gan achosi tagfeydd ofnadwy. Mae trafferthion enfawr i fysiau a lorïau yrru heibio”*

*“Mae eich llythyr yn nodi y byddwch yn gwahardd cerbydau rhag troi i'r dde ac i'r chwith i mewn i Norfolk Street. Mae hyn yn dda, ond dydi hi ddim yn ddigon o gwbl i leihau'r problemau traffig o gwmpas yr ysgol hon.”*

Nid oes cynigion i gyflwyno Gorchmynion Rheoli Traffig ychwanegol yn rhan o'r cynllun hwn. Dylid cyfeirio unrhyw geisiadau am Orchmynion Rheoli Traffig at y tîm Gorchmynion Rheoli Traffig i ymchwilio iddynt, gallwch gysylltu â'r tîm drwy'r manylion isod:

Y Tîm Gorchmynion Rheoli Traffig, Cyngor Caerdydd, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW [GwasanaethauCymdogaeth-CymorthBusnes@caerdydd.gov.uk](mailto:GwasanaethauCymdogaeth-CymorthBusnes@caerdydd.gov.uk)

### Sylw – Pwy gaiff ei eithrio?

*“Mae nifer o drigolion oedrannus yn y stryd, sut byddai ffrindiau a theulu yn ymweld â nhw neu eu casglu ar gyfer apwyntiadau?”*

*“Beth am drigolion sy'n disgwyl ymwelwyr â phroblemau symudedd, sydd angen ymweld â nhw ar yr adegau dan waharddiad? A fyddwch yn disgwyl inni roi rhif cofrestru pob un sy'n dod i ymweld â ni i'r Cyngor yn rheolaidd yn ystod yr adegau hynny?”*

*“Heb sôn am yr ymwelwyr un tro a all fod wedi gwneud apwyntiad i weld preswlydd am ba bynnag rheswm.”*


*“Helo, er fy mod i'n cymeradwyo'r syniad, rwy'n poeni fel preswlydd Norfolk Street am yr effaith a gaiff y cynllun arbrofol ar ymwelwyr, mae gennym ni berthnasau o dramor sy'n aros gyda ni ac maent yn ein helpu ni gyda gofal plant a dyletswyddau eraill tra eu bod yma.”*

*“Gan nad ydynt yn breswylwyr, ni fydd ganddynt drwydded parcio preswlydd, ond ymwelydd. A fydd y cynllun yn caniatáu iddyn nhw ddod mewn a gadael y stryd ar unrhyw adeg?”*

Y cerbydau a gaiff eu heithrio o'r Gorchymyn Gwahardd Gyrru fydd Cerbydau Preswylwyr, Ymwelwyr Gofal/Iechyd neu ymwelwyr sy'n hanfodol i'r preswylwyr (y rhain yw rhifau cofrestru a ddarperir gan y preswylwyr) staff a dosbarthiadau, felly bydd ganddynt hawl i fynediad yn ystod yr adegau hyn. Cedwir rhestr y cerbydau hyn a'i monitro gan yr awdurdod. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, cyflawnir dosbarthiad llythyrau arall a fydd yn rhoi gwybodaeth i breswylwyr ar sut i gael eu cynnwys ar y rhestr o gerbydau wedi eu hawdurdodi.

**Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.**

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch [Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk](mailto:Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk) neu ffoniwch 029 2087 3354 i ofyn am gopi papur o'r adroddiad ymgynghori.



**Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.**

Further details about this consultation are available at [www.cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://www.cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail [TransportProjects@cardiff.gov.uk](mailto:TransportProjects@cardiff.gov.uk) or telephone 029 2087 3354 to request a paper copy of the post-consultation report.